

Atodiad 3:

Cynlluniau codi tâl ar gyfer gosodiadau, gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol a rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear

Cynnwys

Atodiad 3:.....	1
Cynlluniau codi tâl ar gyfer gosodiadau, gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol a rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear	1
Gosodiadau	3
Negeseuon allweddol	3
Cynigion codi tâl.....	3
Trwyddedau rheolau safonol	3
Gosodiadau effaith isel pwrpasol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol	5
Rhan A(2), Rhan B, gweithgareddau gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol ar osodiadau	6
Magu moch a dofednod yn ddwys (gosodiadau ffermio)	6
Ceisiadau trwydded gosodiadau pwrpasol	8
Cyngor cyn gwneud cais.....	10
Dychwelyd ceisiadau na ellir eu 'Gwneud yn Briodol'	11
Costau amser a deunyddiau ar gyfer allanolion.....	11
Amrywiadau a gychwynnir gan CNC	11
Ceisiadau a dynnwyd yn ôl	11
Tirlenwi	11

Gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol	12
Negeseuon allweddol	12
Cyngor cyn gwneud cais.....	12
Cynigion codi tâl ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol	13
Sylweddau ymbelydrol anniwclear	15
Negeseuon allweddol	15
Cyngor cyn gwneud cais.....	15
Cynigion codi tâl.....	16
Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9	17

Gosodiadau

Negeseuon allweddol

Mae'r adran hon yn berthnasol i drwyddedau a ddyroddir i weithgareddau sy'n dod o fewn Atodlen 1, Rhan A(1) o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Gosodiadau).

Rydym wedi defnyddio cynllun codi tâl Gweithredwr Arfarnu Risg Llygredd (OPRA) ar gyfer Gosodiadau ers iddo gael ei gyflwyno yn 2003 lle cafodd taliadau cais eu cyfrifo gan ddefnyddio lluosydd o sgôr risg pob safle. Dim ond tua 4% y mae'r lluosyddion wedi cynyddu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac yn ogystal â'r diffyg hwn o ran adennill costau, mae ein Hadolygiad Strategol o Daliadau wedi pennu nad yw OPRA bellach yn diwallu anghenion cynllun codi tâl modern sy'n seiliedig ar adennill costau am geisiadau am drwyddedau.

Rydym yn ceisio gwneud ein proses asesu'n fwy effeithlon yn barhaus drwy ddatblygu offer newydd, a lle bydd arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol efallai y bydd lle i leihau costau ceisiadau.

Rydym yn cynnig cyflwyno cynllun codi tâl llai cymhleth sy'n cyfateb yn agosach i'r tâl ar gyfer cost cyflawni. Y gwahaniaethau allweddol yw:

- pedwar band o dâl sylfaenol yn dibynnu ar gymhlethdod y cais
- taliadau ychwanegol ar gyfer rhai asesiadau pwrpasol
- costau amser a deunyddiau lle mae'r amser a gymerir yn fwy na 150% o'r hyn y talwyd amdano
- taliadau amser a deunyddiau ar gyfer asesiadau pwrpasol, penodol i safleoedd tirlenwi
- byddwn yn cadw 14% o dâl y cais lle caiff cais ei ddychwelyd am nad oes digon o wybodaeth i allu penderfynu arno
- codir tâl am geisiadau am amrywiadau gweinyddol yn unig i drwyddedau. Ni fyddwn yn codi tâl am amrywiadau gweinyddol a gychwynnir gan CNC.

Cynigion codi tâl

Trwyddedau rheolau safonol

Mae'r rhain yn setiau o reolau y mae'r gweithredwr yn ymrwmo i gydymffurfio â nhw, a gall ddangos cyn lleied â phosibl o risg amgylcheddol, yn hytrach na gwneud cais am drwydded bwrpasol. Cyfyngir y broses o roi'r trwyddedau hyn oherwydd gwiriadau gweinyddol sy'n golygu bod y tâl ymgeisio yn isel, rhwng £1,669 a £1,995 ar hyn o bryd.

Mae adolygiad o'n trwyddedau rheolau safonol wedi'i gynnal, ac o ganlyniad i hyn dim ond dau sydd gennym erbyn hyn y gellir gwneud cais amdanynt: gosodiad effaith isel Rhan A, a threulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraff fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio'r bionwy sy'n deillio ohono.

Rydym yn cynnig codi'r symiau canlynol am weddill y trwyddedau rheolau safonol:

		Gosodiad effaith isel Rhan A(1) rheolau safonol 2009 rhif 2¹	Treulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraff fferm yn unig gan gynnwys defnyddio'r bionwy sy'n deillio ohono SR2018 rhif 10
Cais Newydd	Presennol	£1,669	£1,995
	Arfaethedig	£4,300	£4,510
Amrywiad Arferol	Presennol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Arfaethedig	£595	£595
Trosglwyddiad Rhannol	Presennol	£388	£997
	Arfaethedig	£2,038	£2,038
Trosglwyddiad Llawn	Presennol	£388	£997
	Arfaethedig	£2,038	£2,038
Ildiad Rhannol	Presennol	£388	£1,575
	Arfaethedig	£250	£250
Ildiad Llawn	Presennol	£388	£1,575
	Arfaethedig	£250	£250

Tabl 1 – Taliadau trwyddedau rheolau safonol arfaethedig

Nodyn 1 – Bydd taliadau trosglwyddo ac ildio hefyd yn berthnasol i SR 2012 rhif 9, sef y rheolau safonol a ddisodlwyd ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Er bod y taliadau hyn wedi cynyddu'n sylweddol, maent gryn dipyn yn llai nag y byddai ymgeisydd yn ei dalu am drwydded bwrpasol. Mae maint y cynnydd yn adlewyrchu'n rhannol y gorbenion uwch fesul trwydded sydd gan CNC ar hyn o bryd, a hefyd y ffaith mai dim ond 5% y mae'r taliadau hyn wedi cynyddu mewn 10 mlynedd.

Gosodiadau effaith isel pwrpasol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol

Mae angen trwyddedau pwrpasol ar gyfer y gweithgareddau risg is hyn gan fod yna elfennau o asesu i'w cynnal. Mae'r taliadau arfaethedig yn adlewyrchu'r tebygrwydd o ran amser asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud wrth benderfynu ar gais am injan nwy tirlenwi felly mae'r taliadau ar gyfer hyn yn uwch.

Bydd pob gweithgaredd arall sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol yn gweld cynnydd bach yn ei daliadau. Bydd costau ceisiadau gosodiadau effaith isel pwrpasol yn cynyddu'n sylweddol fel y dangosir isod:

		Gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol	Injan nwy tirlenwi annibynol	Gosodiadau effaith isel pwrpasol
Cais Newydd	Presennol	£7,547	£7,547	£2,697
	Arfaethedig	£7,750	£12,610	£7,066
Amrywiad Gweinyddol	Presennol	Dim tâl	Dim tâl	Dim tâl
	Arfaethedig	£595	£595	£595
Mân Amrywiad Technegol	Presennol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
	Arfaethedig	£1,106	£1,835	£1,004
Amrywiad Arferol	Presennol	£2,005	£2,005	£388
	arfaethedig	£4,624	£7,539	£4,213
Amrywiad Sylweddol	Presennol	£3,999	£3,999	£388
	Arfaethedig	£6,968	£11,342	£6,353
Trosglwyddiad Rhannol	Presennol	£7,631	£7,631	£388
	Arfaethedig	£3,879	£3,879	£3,879
Trosglwyddiad Llawn	Presennol	£5,090	£5,090	£388
	Arfaethedig	£2,459	£2,459	£2,459

Ildiad Rhannol	Presennol	£5,773	£5,773	£388
	Arfaethedig	£2,459	£2,459	£2,459
Ildiad Llawn	Presennol	£6,801	£6,801	£388
	Arfaethedig	£1,722	£1,722	£1,722

Tabl 2 – Taliadau gosodiadau effaith isel pwrpasol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol arfaethedig

Rhan A(2), Rhan B, gweithgareddau gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol ar osodiadau

Pan fo gweithgaredd Atodlen 1 Rhan A(2) neu Ran (B) yn rhan o osodiad, caiff ei gynnwys yn y drwydded. Rydym yn codi swm ychwanegol am asesu'r rhannau hyn o gais am drwydded, sef £1,669 ar hyn o bryd ar gyfer cais newydd, £997 am amrywiad sylweddol a £556 am unrhyw amrywiad, trosglwyddiad neu ildiad arall. Rydym yn cynnig taliadau diwygiedig ar gyfer y gweithgareddau hyn a byddwn yn codi'r un swm ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau ar Osodiadau. Codir y tâl rheolau safonol priodol ar weithgareddau gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol sy'n perthyn i gategoriâu trwydded rheolau safonol.

Y taliadau am y gweithgareddau hyn fydd:

	Y Cais	Amrywiad	Trosglwyddiad	Ildiad
Gweithgaredd Rhan A(2) neu Ran B ar osodiad	£1,578	£947	Dim tâl ychwanegol	£947
Gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol pwrpasol ar osodiad	£1,578	£947	Dim tâl ychwanegol	£947

Tabl 3 – Taliadau gweithgaredd Rhan A(2), Rhan B neu weithfeydd hylosgi canolig/generaduron penodol arfaethedig

Magu moch a dofednod yn ddwys (gosodiadau ffermio)

Nid yw'r gosodiadau hyn erioed wedi codi tâl o dan Haen 3 Cynllun Arfarnu Gweithredwr a Risg Llygredd (OPRA) ac maent bob amser wedi cael eu taliadau sefydlog eu hunain. Yn

2017 cynhaliodd CNC adolygiad o'r taliadau ymgeisio ac o ganlyniad, cyflwynodd gynllun dwy haen ar gyfer unedau dofednod yn seiliedig ar faint y fferm fel y dangosir yn Nhabl 4.

Rydym wedi edrych eto ar y taliadau ymgeisio ar gyfer gosodiadau ffermio, gan archwilio a fyddai'n briodol codi tâl amdanynt yn yr un modd ag ar gyfer Gosodiadau Rhan A(1) eraill pwrpasol sydd ar hyn o bryd o dan gynllun OPRA. Daethom i'r casgliad na fyddai hyn yn briodol a chynigiwyd parhau i godi tâl sefydlog. Fodd bynnag, rydym yn cynnig dychwelyd i gyfradd sengl ar gyfer pob fferm.

Rydym hefyd yn cynnig codi tâl amser a deunyddiau ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n cymryd mwy na 150% o'r amser a gwmpesir gan y taliad. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn adennill y costau penderfyniad ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n fwy cymhleth ac yn cymryd mwy o amser i'w hasesu.

Ar hyn o bryd, dim ond taliadau am amrywiadau arferol a sylweddol ar gyfer gosodiadau ffermio sydd gennym. Mae'r tâl amrywiad arferol bob amser wedi bod yn isel iawn ac ni chafodd ei adolygu yn 2017. Rydym yn cynnig codi tâl yn ei le i dalu am y math hwn o amrywiad. Byddwn hefyd yn ychwanegu taliadau am fân amrywiadau gweinyddol a thechnegol a fydd yr un fath ag ar gyfer holl osodiadau Rhan A(1).

Y taliadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am fagu moch a dofednod yn ddwys yw fel a ganlyn:

	Y Cais	Mân amrywiad technegol	Amrywiad arferol	Amrywiad sylweddol	Trosglwyddiad	Ildiad
Presennol	£7,322 / £10,240 (ar gyfer >80,000 o leoliadau dofednod)	£388	£388	£3,584 / £5,120 (ar gyfer >80,000 o leoliadau dofednod)	£388	£388
Arfaethedig	£9,270	£2,614	£5,562	£7,416	£2,601	£5,642

Tabl 4 – Magu moch a dofednod yn ddwys

Y tâl am amrywiad gweinyddol fydd £595.

Ceisiadau trwydded gosodiadau pwrpasol

Mae'r taliadau hyn yn seiliedig ar luosyddion OPRA ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig disodli'r cynllun hwn gyda thaliadau sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol faint o waith sydd ei angen i bennu'r drwydded. Mae tystiolaeth o ddadansoddiad o'r broses benderfynu yn dangos bod ystod eang o amser yn cael ei gymryd yn dibynnu ar gymhlethdod y cais. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig pedwar band tâl i ddisodli sgôr OPRA ar gyfer safle penodol.

Byddwn yn darparu offeryn gan ddefnyddio ffactorau hysbys sy'n cyd-fynd â'r wybodaeth a'r asesiadau a ddarperir yn y cais i benderfynu pa fand y bydd cais yn perthyn iddo. Y ffactorau allweddol wrth benderfynu ar weithgareddau o fewn y bandiau hyn fydd:

- nifer y gwahanol weithgareddau Rhan A(1) rhestredig ar y safle
- lluosrifau'r trothwy sy'n dod â phrif weithgaredd rhestredig Rhan A(1) i mewn i reoliad
- p'un a oes unrhyw weithfeydd hylosgi mawr neu weithgareddau llosgi gwastraff ar y safle
- p'un a yw'r safle'n trin gwastraff peryglus
- p'un a yw'r gosodiad yn safle tirlenwi
- p'un a oes canllaw technegau gorau ar gael sy'n gymwys ar gyfer y gweithgaredd.

Ar gyfer amrywiadau sylweddol ac arferol, dim ond i'r rhannau o'r gosodiad y mae'r amrywiad yn effeithio arnynt y bydd y tâl yn berthnasol. Mae hyn yn alinio'r tâl â'r gwaith sydd ei angen i bennu'r amrywiad yn hytrach na'r gweithrediad cyfan yn y gosodiad, yn yr un modd â'r sefyllfa bresennol gyda'r tâl sy'n seiliedig ar OPRA.

Lle mae gosodiad hefyd yn cyflawni gweithgareddau Rhan A(2) neu Ran B, neu lle mae gweithgaredd gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodedig, codir swm penodol am bob gweithgaredd, fel y disgrifir uchod.

Yn ogystal â'r tâl sylfaenol o'r band priodol, fel y dangosir yn Nhabl 5, a lle bo'n briodol y tâl 'Rhan A(2), Rhan B neu weithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodedig', ychwanegir taliadau atodol ar gyfer asesiadau ychwanegol penodol. Mae'r rhain ar gyfer asesiadau lleoliad neu weithgaredd penodol nad ydynt yn berthnasol i bob cais, ond sy'n cymryd cryn dipyn o amser i'w hasesu, fel y dangosir yn Nhabl 6.

Y taliadau craidd a gynigiwn yw:

	Band 1 pwrpasol	Band 2 pwrpasol	Band 3 pwrpasol	Band 4 pwrpasol
Cais Newydd	£13,212	£19,873	£31,765	£43,543
Amrywiad Gweinyddol	£595	£595	£595	£595
Mân Amrywiad Technegol	£2,614	£2,614	£2,614	£2,614
Amrywiad Arferol	£8,705	£11,080	£19,009	£34,108
Amrywiad Sylweddol	£12,655	£19,063	£30,480	£41,443
Trosglwyddiad Rhannol	£5,085	£7,032	£11,497	£14,211
Trosglwyddiad Llawn	£2,601	£2,601	£2,601	£2,601
Ildiad Rhannol	£6,497	£8,899	£17,814	£23,589
Ildiad Llawn	£5,642	£8,125	£14,301	£19,960
Ildiad Risg Isel	£2,614	£2,614	£2,614	£2,614
Ildio safle nad yw erioed wedi gweithredu	£1,182	£1,182	£1,182	£1,182

Tabl 5 – Taliadau cais am drwydded pwrpasol

Y taliadau arfaethedig ar gyfer asesiadau ychwanegol yw:

Asesiadau ychwanegol	Tâl arfaethedig
Asesiad modelu ansawdd aer llawn	£2,613
Asesiad allyriadau ffo (lle nad yw'n rhan o fodelu ansawdd aer)	£1,608
Asesiad aroglau (lle nad yw'n rhan o fodelu ansawdd aer)	£1,571
Asesiad modelu bioaerosolau	£3,281
Asesiad effaith modelu sŵn llawn	£2,354
Cynllun atal a lliniaru tân	£2,274
Asesiad dyddodi gwastraff at ddibenion adfer	£1,683
Asesiad y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o elifiant prosesau	£3,128

Tabl 6 – Taliadau am asesiadau ychwanegol

Cyngor cyn gwneud cais

Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu ymgeiswyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cynghori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgrisiwn CNC. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded sydd ei angen
- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio
- pa ganllawiau y mae'n rhaid eu dilyn
- sut i gyfrifo'r tâl ar gyfer y cais.

Ar gyfer ceisiadau am drwyddedau Gosodiadau, mae hyn yn golygu y byddwn yn darparu cyngor ar agweddau fel y gweithgaredd Atodlen 1 mwyaf addas, neu p'un a yw gweithgaredd yn weithgaredd llosgi neu gyd-llosgi. Byddwn hefyd yn cynghori ar lefel y manylder sydd ei hangen yn yr wybodaeth ategol yn eich cais. Lle bo'r ymgeisydd yn gofyn am gymorth

manylach i ddehongli'r canllawiau, neu sut i gynnal yr amrywiol asesiadau effaith sy'n ofynnol ar gyfer y cais, mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl.

Dychwelyd ceisiadau na ellir eu 'Gwneud yn Briodol'

Rhaid i bob cais gynnwys gwybodaeth i'n galluogi i bennu amodau i'r drwydded. Lle cyflwynir cais nad yw'n cynnwys digon o wybodaeth yn yr asesiad Gwneud yn Briodol cychwynnol, byddwn yn ei ddychwelyd i'r ymgeisydd. Ar hyn o bryd, rydym yn dychwelyd y tâl cyfan i'r ymgeisydd, ond rydym yn cynnig cadw 14% i dalu cost y gwaith asesu a wneir.

Dychwelir ceisiadau dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gael cyfle i gyflenwi gwybodaeth sydd ar goll.

Costau amser a deunyddiau ar gyfer allanolion

Mae dadansoddiad o'r amser a gymerir i bennu trwyddedau yn dangos bod nifer fach o geisiadau yn cymryd amser anghymesur o hir i'w penderfynu. Gall hyn fod am resymau nad ydynt yn amlwg ar adeg y cais ac nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud â lefel diddordeb y cyhoedd yn y safle. Nid ydym yn credu y byddai'n deg cynnwys yr 'allanolion' hynny o ran costau wrth gyfrifo'r amser cyfartalog a gymerir a'r tâl ymgeisio dilynol a osodwyd ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau syml. Felly, pan fo'r amser a gymerir i bennu'r drwydded yn fwy na 150% o'r amser cyfartalog ar gyfer gosod ein taliadau, rydym yn cynnig codi tâl am amser a deunyddiau ar ein cyfradd safonol o £125 y awr.

Amrywiadau a gychwynir gan CNC

Pan fydd CNC yn penderfynu bod angen amrywio trwydded, byddwn yn codi'r swm priodol o'r tablau uchod.

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl

Pan fydd cais yn cael ei dynnu'n ôl neu'n cael ei ystyried wedi'i dynnu'n ôl, byddwn yn parhau i roi ein barn ynghylch a ddylid dychwelyd rhan o'r tâl cais, yn dibynnu ar faint o amser sydd wedi'i dreulio ar y gwaith penderfynu hyd at y pwynt hwnnw.

Tirlenwi

Mae gwaredu gwastraff mewn safle tirlenwi lle mae'r safle yn derbyn mwy na 10 tonnell o wastraff mewn diwrnod, neu gyda chyfanswm capasiti o fwy na 25,000 tonnell bellach yn weithgaredd Gosodiad Rhan A(1). Fodd bynnag, cyn 1999 roedd y gweithgareddau hyn yn cael eu rheoleiddio dan Drwyddedau Rheoli Gwastraff. Mae safleoedd tirlenwi eraill bellach yn cael eu dosbarthu fel gweithrediadau gwastraff, ac mae manylion y cynigion codi tâl ar gyfer y safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 5 – Gwastraff ar y Safle.

Gall safle tirlenwi sy'n derbyn gwastraff bioddiraddadwy neu anadweithiol barhau i fod yn berygl i'r amgylchedd am flynyddoedd lawer ar ôl iddo roi'r gorau i dderbyn gwastraff. Mae llawer o'r safleoedd hyn, a roddodd y gorau i weithredu tra'r oeddent o dan drwydded rheoli gwastraff, yn parhau i gael eu rheoleiddio. Rydym yn cyfeirio at y rhain fel safleoedd tirlenwi ar gau. Mae yna hefyd safleoedd tirlenwi ar gau a roddodd y gorau i weithredu tra'n cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Rydym yn cynnig dull cyson o godi tâl am bob math o geisiadau am drwyddedau safleoedd tirlenwi ar draws trwyddedau Gwastraff a Gosodiadau. Bydd y tâl yn cynnwys y tâl sylfaenol priodol a'r symiau ar gyfer yr asesiadau ychwanegol perthnasol o'r rhestr safonol yn y cynllun tâl Gwastraff neu Osodiadau. Yn ogystal â hyn, codir tâl ar sail amser a deunyddiau ar ein cyfradd safonol o £125 yr awr am asesiad o unrhyw adroddiadau penodol i safleoedd tirlenwi, er enghraifft asesiad risg hydroddaearegol, asesiad risg sefydlogrwydd neu asesiad risg nwy tirlenwi. Mae hyn i adlewyrchu natur amrywiol iawn asesiad risg amgylcheddol tirlenwi.

Gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol

Negeseuon allweddol

Mae'r trefniadau gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol yn gymharol newydd i Drwyddedu Amgylcheddol yn dilyn cael eu cyflwyno yn 2018. Maent yn rheoleiddio gweithfeydd hylosgi a chynhyrchu sy'n peri llai o risg amgylcheddol na gweithfeydd gosod Atodlen 1 Rhan A(1). Datblygwyd nifer o drwyddedau rheolau safonol i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r mathau o geisiadau, gyda thrwyddedau pwrpasol ar gyfer y rhai mwyaf cymhleth lle mae angen i ni gynnal asesiad effaith o allyriadau i'r aer.

Rydym yn cynnig codi tâl i gwmpasu'r asesiad ychwanegol sydd ei angen lle mae gweithgaredd gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol hefyd yn weithgaredd Atodlen 1 Rhan B; ac yn yr un modd â chylfndrefnau rheoleiddio diwydiant eraill, rydym yn cynnig codi tâl am amrywiadau gweinyddol.

Cyngor cyn gwneud cais

Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu ymgeiswyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cynghori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgrisiwn CNC. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded sydd ei angen
- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio
- pa ganllawiau y mae'n rhaid eu dilyn
- sut i gyfrifo'r tâl ymgeisio.

Cynigion codi tâl ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol

Dangosir ein taliadau arfaethedig yn y tablau isod:

Rhif trwydded rheolau safonol	Y Cais	Newid atodlen trwydded	Trosglwyddiad	Ildiad
Rheolau Safonol Generadur Penodol SR2018 rhif 1 SR2018 rhif 2 SR2018 rhif 3 SR2018 rhif 4 SR2018 rhif 5 SR2018 rhif 6	£229	£396	£280	£257
Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 un Gweithfa Hylosgi Canolig yn unig	£653	£396	£280	£257
Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 hyd at dri Gweithfa Hylosgi Canoli	£746	£396	£280	£257
Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 hyd at bum Gweithfa Hylosgi Canolig	£885	£396	£280	£257
Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 hyd at wyth Gweithfa Hylosgi Canolig	£1,070	£396	£280	£257
Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 hyd at 10 Gweithfa Hylosgi Canolig	£1,163	£396	£280	£257

Rheolau Safonol Gweithfeydd Hylosgi Canolig SR2018 rhif 7 hyd at 15 Gweithfa Hylosgi Canolig	£1,256	£396	£280	£257
Peirianwaith Symudol Generadur Penodol Rheolau Safonol SR2018 rhif 8	£229	£396	£280	£257

Tabl 7 – Taliadau arfaethedig rheolau safonol gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol

Sylwer – Mae newid atodlen trwydded yn amrywiad i ychwanegu neu ddileu gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol o drwydded rheolau safonol.

Math o Drwydded Pwrpasol	Y Cais	Mân Amrywiad	Amrywiad Arferol	Amrywiad sylweddol	Trosglwyddi ad llawn	Trosglwyddi ad rhannol	Ildiad llawn	Ildiad rhannol
Gweithfeydd Hylosgi Canolig / Generaduron Penodol Cymhleth Pwrpasol	£9,687	£1,339	£5,618	£8,907	£2,015	£3,225	£1,367	£1,973
Gweithfeydd Hylosgi Canolig / Generaduron Penodol Syml Pwrpasol	£3,792	£1,339	£2,272	£3,069	£2,015	£3,225	£1,367	£1,973

Tabl 8 – Taliadau arfaethedig gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol

Yn ogystal â'r tablau uchod:

- Lle bo gweithredwr yn gofyn am amrywiad gweinyddol, y tâl fydd £560. Ni chodir tâl am amrywiadau gweinyddol a gychwynnir gan CNC.
- Lle mae gweithfeydd hylosgi canolig hefyd yn weithgaredd Rhan B o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, byddwn yn ychwanegu £880 at y tâl ymgeisio.

- Pan fo gweithfeydd hylosgi canolig neu generaduron penodol yn weithgaredd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgaredd Rhan A(1) ar osodiad, bydd symiau ychwanegol yn cael eu hychwanegu:
 - Ar gyfer gosodiad newydd yn cynnwys un neu fwy o reolau safonol cyfatebol gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol – y tâl rheolau safonol priodol
 - Ar gyfer gosodiad newydd gan gynnwys gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol pwrpasol – £1,578
 - Am amrywiad i drwydded gosod i ychwanegu gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol heb unrhyw newidiadau eraill – y tâl gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol annibynnol priodol o'r tablau uchod
 - Am amrywiad i drwydded gosod sy'n cynnwys newidiadau i'r gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol ynghyd â newidiadau eraill – ychwanegwch £947 at y tâl amrywiad gosod
 - Am amrywiad i drwydded gosod lle mai dim ond amodau'r gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol sy'n cael eu hamrywio – y tâl amrywiad priodol o'r tablau uchod
 - Ni chodir tâl am newidiadau annhechnegol i amodau gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol fel rhan o amrywiad i drwydded gosod.

Ar gyfer unrhyw senario nad yw wedi'i restru uchod byddwn yn codi'r tâl mwyaf priodol yn seiliedig ar yr uchod.

Sylweddau ymbelydrol anniwclear

Negeseuon allweddol

Nid yw ein taliadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear wedi newid ers cyn creu CNC. Maent yn dod o dan Haen 2 y Cynllun Codi Tâl Unedig ac yn daliadau sefydlog yn seiliedig ar y math o drwydded y gwneir cais amdani.

Mae'r tasgau sydd ynghlwm wrth bennu trwyddedau rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae angen i'n taliadau adlewyrchu'r costau uwch hyn yn ogystal â chostau staff a busnes uwch.

Cyngor cyn gwneud cais

Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu ymgeiswyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgresiwn CNC. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded sydd ei angen

- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio
- pa ganllawiau y mae'n rhaid eu dilyn
- sut i gyfrifo'r tâl i wneud cais.

Cynigion codi tâl

Rydym yn cynnig parhau i godi taliadau sefydlog am y gwahanol fathau o drwyddedau rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata cofnodi amser a mewnbwn arbenigol gan y tîm Trwyddedu, rydym yn cynnig y canlynol:

Gweithgareddau sylweddau ymbelydrol anniwclear	Y Cais	Amrywiad	Trosglwyddiad	Ildiad
Cyfleuster safonol ar gyfer categori ffynhonnell 5 SR2010 rhif 1	£2,133	£1,985	£399	£369
Cadw a defnyddio un neu fwy o ffynonellau wedi'u selio lle mae pob ffynhonnell, a'r holl ffynonellau gyda'i gilydd, yn dod o fewn categori ffynhonnell 5 a/neu Gronni a/neu waredu ffynonellau gwastraff wedi'u selio	£2,440	£2,421	£2,950	£2,090
Cadw a defnyddio un neu fwy o ffynonellau tebyg a/neu Gronni a/neu waredu ffynonellau gwastraff wedi'u selio	£5,476	£5,218	£2,950	£3,503
Cadw a defnyddio un neu fwy o ffynonellau gweithgarwch uchel wedi'u selio a/neu Gronni a/neu waredu	£7,191	£6,883	£3,442	£3,503
Cadw a defnyddio ffynonellau ymbelydrol agored yn unig	£4,515	£3,618	£2,950	£2,090
Cadw a defnyddio ffynonellau ymbelydrol agored a/neu	£5,850	£4,953	£2,950	£6,760

gronni a/neu gael gwared ar wastraff ymbelydrol – swm isel				(£2,090 risg isel)
Cadw a defnyddio ffynonellau ymbelydrol agored a/neu gasglu a/neu gael gwared ar wastraff ymbelydrol – heb fod yn swm isel neu'n gymhleth iawn	£7,835	£7,006	£2,950	£6,760 (£2,090 risg isel)
Cadw a defnyddio ffynonellau ymbelydrol agored a/neu gasglu a/neu gael gwared ar wastraff ymbelydrol – cymhleth iawn	£9,100	£7,651	£2,950	£9,833 (£2,090 risg isel)

Tabl 9 – Taliadau rheoliadau sylweddau ymbelydrol anniwclear arfaethedig

- Lle bo gweithredwr yn gofyn am Amrywiad Gweinyddol, y tâl fydd £860.
- Codir tâl ildio risg isel lle nad oes unrhyw debygolrwydd o halogiad parhaus ar ôl i'r gweithgareddau a ganiateir ddod i ben.

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9